Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

**i gyd-fynd ag ymweliad â'r Adran Achosion Brys pan fo amheuaeth o Syndrom Cauda Equina**

**Taflen Wybodaeth i Gleifion**

---

Rydych chi wedi gweld y tîm ffisiotherapi ynglŷn â’r boen yn eich cefn a/neu eich coes ac fe wnaethoch chi sôn am rai symptomau eraill hefyd. Mae'n bosibl eich bod wedi sôn am newidiadau diweddar yn eich arferion mynd i'r toiled neu eich bywyd rhywiol, neu am ddiffyg teimlad yn eich pen-ôl neu eich organau cenhedlu. Gofynnwyd i chi fynd i'ch ysbyty lleol ar unwaith. Mae'r manylion rydych chi wedi eu rhoi a'r asesiad a gafodd ei wneud heddiw yn gwneud i ni feddwl bod angen i dîm meddygol eich asesu i benderfynu a oes angen sgan MRI arnoch chi. Mae'n bosibl bod rhywbeth o'r enw Syndrom Cauda Equina arnoch chi. Mae hwn yn gyflwr a achosir pan fo pwysau ar y nerfau sy'n cyflenwi eich pledren, y coluddyn, gweithrediad rhywiol, a'r teimlad o amgylch eich pen ôl a'ch organau cenhedlu. Mae Syndrom Cauda Equina yn gyflwr prin iawn. Nid yw ar 90-95 o bob 100 o bobl sy'n cael sgan MRI i chwilio amdano. Ond, gall Syndrom Cauda Equina newid bywyd y 5-10 o bob 100 o bobl sydd â'r cyflwr, a bydd angen triniaeth frys arnyn nhw. Dyma pam ei bod yn bwysig eich bod yn cael eich asesu i weld a oes angen sgan MRI arnoch chi. Byddwn yn gwneud hynny drwy’r Adran Damweiniau ac Achosion Brys.

**Beth nawr?**

Rydym ni'n teimlo ei bod yn bwysig iawn i chi gael eich asesu heddiw.
Ewch ar unwaith i Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Athrofaol y Faenor (A&E).
PEIDIWCH AG OEDI
Dangoswch y llythyr a roddwyd i chi i'r tîm brysbennu.
Bydd y tîm Damweiniau ac Achosion Brys yn eich asesu i weld a oes angen sgan MRI.

Mae'n bosibl y bydd yr amser aros yn hir yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys, ond dylech barhau i aros. Mae’r siawns bod gennych chi Syndrom Cauda Equina yn isel, ond os yw’r cyflwr arnoch chi, mae’r cyfnod lle bydd llawdriniaeth yn llwyddiannus yn fyr. Ni fyddem am i chi golli’r cyfle i gael y llawdriniaeth hon.

**MRI**

Os byddwn ni’n trefnu sgan MRI, bydd meddyg (Radiolegydd) yn edrych arno i weld a yw'n dangos Syndrom Cauda Equina

Canlyniadau

Byddwch yn cael gwybod canlyniad eich sgan MRI yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys.
Mewn achosion prin, efallai y byddwn yn trefnu i chi ddod yn ôl ar amser penodol i gael eich sgan. Os bydd hyn yn digwydd, bydd yr ysbyty'n cysylltu â chi ar ôl ystyried yr MRI. Mae'n bwysig bod gan yr ysbyty eich manylion cyswllt diweddaraf.

Mae dau ganlyniad posib:
1. Nid yw'r sgan MRI yn dangos bod gennych chi Syndrom Cauda Equina
Ni fydd angen triniaeth frys arnoch chi ac mae'n ddiogel i chi fynd adref. Bydd y tîm Damweiniau ac Achosion Brys yn sicrhau bod gennych chi rywfaint o feddyginiaeth lleddfu poen i fynd adref gyda chi, os oes ei hangen.
Dylech barhau i weld yr unigolyn a'ch cyfeiriodd i’r ysbyty, neu rywun yn eich meddygfa a fydd yn gweithio gyda chi i gynllunio camau nesaf eich triniaeth.

2. Mae'r sgan MRI yn dangos bod gennych chi Syndrom Cauda Equina
Bydd Llawfeddyg Asgwrn Cefn Orthopedig yn eich gweld. Bydd y llawfeddyg yn siarad gyda chi am eich opsiynau. Gall y driniaeth gynnwys llawdriniaeth ar eich cefn, ond mae pob unigolyn yn wahanol.

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English**